TGAU

# TGAU Drama

## Manyleb

I'w haddysgu o fis Medi 2025
Dyfarniad Cyntaf 2027



Gwnaed i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Mae'r fanyleb hon yn bodloni gofynion y dogfennau rheoleiddio canlynol a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru:

- Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau TGAU Gwneud i Gymru sy'n nodi'r gofynion ar gyfer unrhyw gymhwyster TGAU newydd a gymeradwywyd i'w addysgu gyntaf o fis Medi 2025 a thu hwnt.
- Amodau Cydnabod Safonol sy'n cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu a'u cymwysterau eu bodloni wrth gynnig cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru.
- Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Drama sy'n nodi'r gofynion pwnc benodol ar gyfer cymwysterau TGAU Drama o fis Medi 2025 a thu hwnt.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## CYNNWYS


CRYNODEB O'R ASESU ..... 4
1 CYFLWYNIAD ..... 6
1.1 Nodau ..... 6
1.2 Cwricwlwm i Gymru ..... 6
1.3 Dysgu blaenorol a dilyniant ..... 7
1.4 Oriau Dysgu dan Arweiniad ..... 7
1.5 Defnydd o iaith ..... 8
1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg ..... 8
2 CYNNWYS Y PWNC ..... 9
Sut i ddarllen yr ymhelaethiad ..... 9
Uned 1 ..... 10
Uned 2 ..... 12
Uned 3 ..... 14
Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu ..... 17
3 ASESU ..... 18
3.1 Amcanion Asesu a Phwysoli ..... 18
3.2 Trosolwg o'r trefniadau ar gyfer asesiad di-arholiad ..... 19
4 CAMYMDDWYN ..... 21
5 GWYBODAETH DECHNEGOL ..... 22
5.1 Cofrestru ..... 22
5.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl ..... 22
Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ..... 23
Atodiad B: Rhestr Terminoleg ..... 25


© WJEC CBAC Ltd. 2024

# TGAU DRAMA

## CRYNODEB O'R ASESU

**Uned 1: Dyfeisio Theatr**
**Asesiad ymarferol di-arholiad**
**40% o'r cymhwyster**
**96 marc**

**Crynodeb o'r asesu**
Ymateb i ysgogiadau a osodir gan CBAC, sy'n cael eu hasesu gan y ganolfan a'u cymedroli gan CBAC. Bydd yr ysgogiadau ar gael ar safle Porth CBAC ym mis Medi y flwyddyn astudio gyntaf. Bydd yr ysgogiadau'n cael eu newid yn flynyddol.

Gall dysgwyr ddewis naill ai actio **neu** ddylunio. Bydd dysgwyr yn creu, mireinio a pherfformio darn o theatr. Bydd dysgwyr yn cynhyrchu Log Adfyfyriol o'r broses hefyd, mewn fformat heb ei ragnodi.
Gall dysgwyr weithio mewn grwpiau sy'n cynnwys rhwng **dau** a **phump** o actorion. Gall hyd at **bedwar** dysgwr ychwanegol, a phob un yn gweithio ar sgìl dylunio gwahanol, weithio gyda phob grŵp perfformio.

**Uned 2: Perfformiad o Destun**
**Asesiad ymarferol di-arholiad**
**30% o'r cymhwyster**
**72 marc**

**Crynodeb o'r asesu**
Wedi'i farcio gan arholwr ymweld. Gall dysgwyr ddewis naill ai perfformio **neu** ddylunio.

Rhaid i bob actor ryngweithio ag actorion eraill a/neu'r gynulleidfa am o leiaf pum munud. Bydd dylunwyr yn amlinellu eu syniadau mewn cyflwyniad Viva nad yw'n cael ei asesu.

Gall dysgwyr weithio mewn grwpiau sy'n cynnwys rhwng **dau** a **phedwar** o actorion.
Gall hyd at **ddau** ddysgwr ychwanegol, a phob un yn gweithio ar sgìl dylunio gwahanol, weithio gyda phob grŵp perfformio.

**Uned 3: Dehongli Theatr**
**Arholiad ar-sgrin: 2 awr**
**30% o'r cymhwyster**
**72 marc**

**Crynodeb o'r asesu**
Cwestiynau sy'n gofyn am ymatebion gwrthrychol, atebion byr ac estynedig, mewn ymateb i destun gosod a thestunau heb eu gweld o'r blaen.

Cymhwyster llinol yw hwn.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Nid yw'n cynnwys haenau.

Nid oes unrhyw hierarchaeth yn y drefn y mae'r unedau'n cael eu cyflwyno. Nid yw'r drefn yn awgrymu trefn addysgu'r unedau.

Bydd asesiad Uned 1 ar gael i ddysgwyr yn y flwyddyn astudio gyntaf, pan fydd yr addysgu a'r dysgu angenrheidiol wedi digwydd a'r dysgwyr wedi datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth ofynnol. Cyflwynir Uned 1 i CBAC yng nghyfres yr haf yn y flwyddyn astudio olaf. Rhaid i Uned 2 ac Uned 3 gael eu cwblhau yn y flwyddyn astudio olaf.

Bydd y cymhwyster hwn yn cael ei ddyfarnu yn gyntaf yng nghyfres haf 2027.

Rhif Cymeradwyo'r Cymhwyster: C00/4967/5

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# TGAU DRAMA

## 1 CYFLWYNIAD

### 1.1 Nodau

Rhaid i gymhwyster TGAU Drama gefnogi dysgwyr i:

- archwilio dramâu sydd wedi'u creu a'u perfformio gan bobl eraill a datblygu eu doniau drama eu hunain
- meithrin dealltwriaeth o amrywiaeth o ffurfiau, genres, arddulliau, technegau, cyd-destunau a dulliau o gyflwyno drama
- datblygu gwybodaeth, gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o sut mae ystyr yn cael ei gyfleu trwy ddrama
- ymateb i waith drama gan eraill ac adfyfyrio arno, gan ddefnyddio eu gwybodaeth am y cyd-destun i werthuso effeithiolrwydd y syniadau a'r technegau a ddefnyddiwyd i gyfleu ystyr
- cymhwyso sgiliau perfformio a/neu ddylunio i ddangos rheolaeth
- datblygu sgiliau creadigol i gynllunio, i ddyfeisio ac i ddylunio perfformiadau a/neu ddyluniadau effeithiol
- adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain, ei fireinio a’i werthuso
- archwilio themâu trawsbynciol hawliau dynol ac amrywiaeth, gan gynnwys safbwyntiau, hunaniaeth, diwylliant a chyfraniadau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.

Mae Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru yn nodi'r nodau hyn.

### 1.2 Cwricwlwm i Gymru

Fframwaith Cwricwlwm i Gymru yw sail y cymhwyster TGAU Drama hwn. Cafodd ei lunio er mwyn sicrhau y gall dysgwyr barhau i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben gan astudio ar gyfer y cymhwyster hwn ar yr un pryd. Yn ganolog i hyn mae'r egwyddorion cynnydd, yn ogystal â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a'r sgiliau a chysyniadau pwnc benodol a amlinellir yn yr adran 'Cynllunio eich Cwricwlwm' Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol.

Wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn, ystyriwyd lle byddai cyfleoedd i ymgorffori'r themâu trawsgwricwlaidd a chyfleoedd yn ogystal i feithrin sgiliau cyfannol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae mapio syml i'w weld yn Atodiad A, a bydd y Canllawiau Addysgu yn cynnwys gwybodaeth i gefnogi athrawon.

Ystyriwyd hefyd lle gall y cymhwyster greu cyfleoedd i integreiddio'r profiadau dysgu a nodwyd ar dudalen 18. Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

Mae'r cymhwyster TGAU Drama yn cael ei lunio ar sail ystyriaethau pwnc benodol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Celfyddydau Mynegiannol[1].

[1] Celfyddydau Mynegiannol: Cynllunio eich cwricwlwm – Hwb (llyw.Cymru)

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Bydd y cymhwyster:

- drwy'r broses greadigol, yn caniatáu i ddysgwyr archwilio, ymateb i ysgogiadau a chreu ac adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain. Ar yr un pryd, byddant hefyd yn ymwneud â phrofiadau sy'n gyfoethog ac yn ddilys.

Bydd y cymhwyster TGAU Drama yn canolbwyntio ar y canlynol, yn seiliedig ar y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer y Celfyddydau Mynegiannol[2]:

- mae **archwilio'r** Celfyddydau Mynegiannol yn hanfodol er mwyn datblygu sgiliau a gwybodaeth artistig, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol
  mae **ymateb** ac **adfyfyrio**, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y Celfyddydau Mynegiannol
- mae **creu** yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a'r dychymyg.

Mae'r cymhwyster TGAU Drama yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy wneud hyn:

- cefnogi egwyddorion cynnydd[3]
- annog dysgwyr i archwilio, profi, dehongli, creu ac ymateb i ystyr sy'n gynyddol gymhleth
- datblygu dysgu cysyniadol sy'n gynyddol soffistigedig
- defnydd mwy soffistigedig o sgiliau perthnasol a'r gallu i drosglwyddo sgiliau a gwybodaeth bresennol i gyd-destun newydd.

Cefnogi'r ystyriaethau penodol ar gyfer y maes hwn[4] drwy roi cyfle i ddysgwyr wneud y canlynol:

- archwilio, ymateb i ysgogiadau a chreu ac adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain. Ar yr un pryd, byddant hefyd yn ymwneud â phrofiadau sy'n gyfoethog ac yn ddilys
- meithrin dealltwriaeth o actio, cyfarwyddo, dylunio, theatr dechnegol a gweinyddu'r celfyddydau.

## 1.3 Dysgu blaenorol a dilyniant

Er nad oes gofynion dysgu blaenorol penodol, lluniwyd y cymhwyster yn bennaf ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed, gan adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol a ddatblygwyd drwy'r hyn a ddysgwyd ganddynt rhwng 3 ac 14 oed.

Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith. Mae'r cymhwyster yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio Drama naill ai ar lefel UG neu ar lefel Safon Uwch. Yn ogystal, mae'r fanyleb hon yn cynnig cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

## 1.4 Oriau Dysgu dan Arweiniad

Lluniwyd y TGAU Drama i'w gyflwyno dros gyfnod o 120 – 140 o oriau dysgu dan arweiniad. Cafodd y cymhwyster ei lunio'n bennaf fel rhaglen 2 flynedd i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11.

[2] Celfyddydau Mynegiannol: Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig – Hwb (llyw.Cymru)
[3] Celfyddydau Mynegiannol: Egwyddorion cynnydd – Hwb (llyw.Cymru)
[4] Celfyddydau Mynegiannol: Cynllunio eich cwricwlwm – Hwb (llyw.cymru)

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## 1.5 Defnydd o iaith

Wrth i'n dealltwriaeth o amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ddatblygu, mae'n rhaid i'n hiaith ddatblygu hefyd. Drwy ddiweddaru terminoleg, rydym yn adlewyrchu hunaniaethau unigol yn well ac yn meithrin parch a chywirdeb. Dylai'r iaith a ddefnyddir fod mor benodol â phosibl. Mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a bod modd addasu gan fod iaith gynhwysol yn hybu urddas a thegwch. Gan gydnabod y bydd iaith yn parhau i ddatblygu, byddwn yn parhau i fod yn agored i ddiwygiadau pellach i sicrhau y cynrychiolir ac y cefnogir pob unigolyn yn gywir. Bydd CBAC yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser.

## 1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i rywedd a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Fe'i lluniwyd gyda'r bwriad o osgoi, lle bo hynny'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwyr gael mynediad a llwyddiant oherwydd bod ganddynt nodwedd warchodedig benodol.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y nodweddion gwarchodedig yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Gwneir trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr cymwys fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd ac er mwyn eu galluogi i ddangos eu gwybodaeth a'u sgiliau heb newid gofynion yr asesiad.

Mae gwybodaeth am drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol i'w cael yn y ddogfen ganlynol gan y Cydgyngor Cymwysterau (CGC): Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyd-gyngor Cymwysterau (www.jcq.org.uk).

Byddwn yn dilyn egwyddorion y ddogfen hon ac felly, o ganlyniad i ddarpariaeth addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr sydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesiad.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# 2 CYNNWYS Y PWNC

## Sut i ddarllen yr ymhelaethiad

Mae'r ymhelaethiad a welir yn y golofn 'Gwybodaeth Bellach' ar y dde yn defnyddio'r pedwar bonyn canlynol:

- Mae 'Dylai dysgwyr wybod' yn golygu bod gofyn i ddysgwyr alw rhywbeth i gof yn uniongyrchol
- Mae 'Dylai dysgwyr ddeall' yn golygu bod gofyn i ddysgwyr ddangos mwy o ddyfnder na nodi neu alw i gof syml, er enghraifft, gallu cymhwyso gwybodaeth at gyd-destunau cyfarwydd neu anghyfarwydd a gallu syntheseiddio a gwerthuso gwybodaeth at bwrpas penodol
- Mae 'Dylai dysgwyr allu' yn golygu bod angen i ddysgwyr gymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth at sefyllfa ymarferol neu gymhwyso sgiliau a thechnegau ymarferol
- Mae 'Mae'n ofynnol i ddysgwyr' yn golygu bod angen dangos gofynion unedau unigol.

Mae 'gan gynnwys' yn golygu bod rhaid addysgu'r cynnwys dan sylw ac y gallai gael ei asesu.

Mae'r geiriau 'er enghraifft' neu 'megis' yn golygu mai arweiniad yn unig yw'r cynnwys dan sylw, a gellid dewis enghreifftiau eraill.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Uned 1

**Dyfeisio Theatr**

Asesiad di-arholiad ymarferol a Log Adfyfyriol
Wedi'u marcio gan y ganolfan a'u cymedroli gan CBAC
40% o'r cymhwyster
96 marc

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:
- datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o ymarferwyr/cwmnïau/arddulliau a genres theatraidd
- datblygu ymwybyddiaeth a sgiliau dysgwyr o ran creu a datblygu eu gwaith eu hunain
- datblygu'r ffordd mae dysgwyr yn cymhwyso'u sgiliau perfformio **neu** ddylunio mewn perfformiad byw
- rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu eu gallu i adfyfyrio, dadansoddi a gwerthuso eu penderfyniadau creadigol
- datblygu gwydnwch, penderfynoldeb a hyder dysgwyr.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:
- **archwilio** – bydd dysgwyr yn cael cyfle i archwilio amrediad o ymarferwyr/cwmnïau/arddulliau a genres theatraidd. Bydd hyn yn cynnwys amrywiaeth o dechnegau, ffurfiau, arddulliau, cyd-destunau a dulliau o gyflwyno drama. Gallai archwilio ddigwydd hefyd drwy gyfrwng theatr fyw a/neu ddigidol, fel ffynonellau posibl o ddylanwad ar gyfer syniadau perfformio neu ddylunio. Dylai dysgwyr gael cyfle i archwilio amrywiaeth, gan gynnwys gwahanol safbwyntiau, hunaniaeth, diwylliant a chyfraniadau sy'n cwmpasu Cymru a'r byd.
- **ymateb ac adfyfyrio** – bydd dysgwyr yn gallu adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain ac ymateb i adborth gan bobl eraill fel proses barhaus trwy gydol y cyfnod datblygu, a fydd yn caniatáu iddynt wella'r perfformiadau y maent yn eu rhoi neu'r dyluniadau y maent yn eu cynhyrchu
- **creu** – bydd dysgwyr yn cyfrannu tuag at greu perfformiad dyfeisiedig mewn ymateb i ddewis o ysgogiadau a osodwyd gan CBAC.

Gall dysgwyr ddewis cwblhau'r uned hon fel actorion **neu** ddylunwyr, waeth beth fo'u llwybr dewisol yn Uned 2.

Rhaid i ddysgwyr sy'n dewis dylunio ddewis un o'r canlynol:
- dylunio goleuo
- dylunio sain
- dylunio set a phropiau
- dylunio gwisgoedd, gwallt a cholur.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Meysydd cynnwys**

<table>
<tr><th colspan="2">1.1 Dyfeisio Theatr</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas â'r canlynol:<br>1.1.1 Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr<br>1.1.2 Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw<br>1.1.3 Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain</td></tr>
<tr><td>Cynnwys</td><td>Gwybodaeth bellach</td></tr>
<tr><td>1.1.1<br>Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr</td><td>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• (ar ôl archwilio amrediad o ymarferwyr/cwmnïau/arddulliau/genres perthnasol) creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr o fewn perfformiad dyfeisiedig.<br><br>Mae'n ofynnol i ddysgwyr:<br>• ddyfeisio perfformiad mewn ymateb i ysgogiad a osodwyd gan CBAC gan ddangos technegau ymarferwr theatr/cwmni theatr neu gonfensiynau dramatig arddull neu genre theatraidd penodol.</td></tr>
<tr><td>1.1.2<br>Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw</td><td>Mae'n ofynnol i ddysgwyr:<br>• ddatblygu a chymhwyso eu sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw.<br><br>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>(perfformio)<br>• dangos eu gallu i gymhwyso sgiliau perfformio mewn perthynas â nodau theatraidd yr ymarferwr/cwmni o'u dewis neu gonfensiynau'r arddull/genre o'u dewis<br>• cyfleu eu dehongliad o gymeriad(au) a chynnal ymgysylltiad cynulleidfa<br>• cyfrannu at y perfformiad<br><br>(dylunwyr)<br>• dangos eu gallu i gymhwyso sgiliau dylunio mewn perthynas â nodau theatraidd yr ymarferwr/cwmni o'u dewis neu gonfensiynau'r arddull/genre o'u dewis, fel sy'n berthnasol i'w opsiwn dylunio<br>• cyfleu eu dehongliad o'r darn(au) a chynnal ymgysylltiad cynulleidfa<br>• sicrhau bod eu dyluniad yn cyfrannu at y perfformiad.</td></tr>
<tr><td>1.1.3<br>Adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain</td><td>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain, ei fireinio a'i werthuso<br>• gwerthuso'n feirniadol effeithiolrwydd ac effaith eu dewisiadau creadigol sy'n gysylltiedig â'u:<br>  ◦ hymateb i'r ysgogiad a ddewiswyd<br>  ◦ dewis o ymarferwr/cwmni/arddull/genre<br>  ◦ dull o gymhwyso sgiliau perfformio neu ddylunio.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Uned 2

**Perfformiad o Destun**

Asesiad ymarferol di-arholiad
Wedi'i farcio gan arholwr ymweld
30% o'r cymhwyster
72 marc

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:

- datblygu ymwybyddiaeth a sgiliau dysgwyr o ran datblygu, newid a mireinio eu perfformiad neu ddyluniad eu hunain sy'n seiliedig ar destun
- datblygu'r ffordd mae dysgwyr yn cymhwyso'u sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:

- **archwilio –** bydd dysgwyr yn cael y cyfle i archwilio a pherfformio amrywiaeth o destunau theatraidd, o amrywiol genres a chyfnodau, ac yn gysylltiedig â gwahanol ddiwylliannau, persbectifau a chyfraniadau yng Nghymru a'r byd. Gellir cysylltu'r archwilio hefyd ag amrediad o arddulliau a genres theatraidd, â nodau artistig amrywiol ymarferwyr/cwmnïau theatr, a thrwy ddefnyddio theatr fyw a/neu theatr wedi'i recordio ymlaen llaw/wedi'i ffrydio'n fyw fel ffynhonnell bosibl o ddylanwad ar gyfer syniadau perfformio neu ddylunio
- **creu –** yn gysylltiedig â'r broses o greu a gwireddu'r perfformiad terfynol yn seiliedig ar destun; gallent gael y profiad o hyn naill ai fel actorion **neu** fel dylunwyr.

Bydd gan ddysgwyr ddewis rhydd o ran eu testun gyfer Uned 2; ond mae'n rhaid i'r testun fod yn wahanol i'r testun gosod a ddewisir yn Uned 3.

Gall dysgwyr ddewis cwblhau'r uned hon fel actorion **neu** ddylunwyr, waeth beth fo'u llwybr dewisol yn Uned 1.

Rhaid i ddysgwyr sy'n dewis dylunio ddewis **un** o'r canlynol:

- dylunio goleuo
- dylunio sain
- dylunio set a phropiau
- dylunio gwisgoedd, gwallt a cholur.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Meysydd cynnwys**

| **2.1 Perfformiad o Destun** | |
|---|---|
| Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth o'r canlynol:<br>2.1.1 Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr<br>2.1.2 Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio **neu** ddylunio mewn perfformiad byw | |
| Cynnwys | Gwybodaeth bellach |
| 2.1.1<br>Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr | Mae'n ofynnol i ddysgwyr:<br>• (ar ôl archwilio amrywiaeth o ddarnau perthnasol) greu a datblygu darn(au) o destun perfformiad cyhoeddedig i'w berfformio.<br><br>Dylai canolfannau nodi nad oes angen i bob dysgwr yn y grŵp addysgu ddewis darn(au) o'r un testun perfformiad. |
| 2.1.2<br>Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio **neu** ddylunio mewn perfformiad byw | Mae'n ofynnol i ddysgwyr:<br>• arddangos a chymhwyso eu sgiliau perfformio **neu** ddylunio mewn perfformiad byw o destun perfformiad cyhoeddedig.<br><br>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>(perfformio)<br>• dangos eu gallu i gymhwyso sgiliau perfformio<br>• cyfleu eu dehongliad o gymeriad(au) a sicrhau ymgysylltiad cynulleidfa<br>• cyfrannu at y perfformiad<br><br>(dylunio)<br>• dangos eu gallu i gymhwyso sgiliau dylunio (fel sy'n berthnasol i'r opsiwn dylunio a ddewiswyd)<br>• cyfleu eu dehongliad o'r darn(au) a sicrhau ymgysylltiad cynulleidfa<br>• sicrhau bod eu dyluniad yn cyfrannu at y perfformiad. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Uned 3

**Dehongli Theatr**

Arholiad digidol yn unig, wedi'i farcio gan CBAC
30% o'r cymhwyster
72 marc

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:
- dangos a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae drama yn cael ei dylunio, ei datblygu a'i pherfformio drwy gyd-destun gweithiau sydd wedi eu paratoi ymlaen llaw a heb eu paratoi ymlaen llaw
- datblygu sgiliau creadigol dysgwyr, fel actorion, dylunwyr a chyfarwyddwyr, drwy gyd-destun gweithiau sydd wedi'u paratoi ymlaen llaw a heb eu paratoi ymlaen llaw
- adfyfyrio a dadansoddi gwaith eraill drwy gyd-destun gwaith heb ei baratoi ymlaen llaw.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:
- archwilio – bydd dysgwyr yn cael cyfle i archwilio amrywiol safbwyntiau a phrofiadau theatraidd. Dylai hyn gynnwys amrywiaeth o dechnegau, ffurfiau, arddulliau a chyd-destunau. Bydd yr archwiliad hwn yn gysylltiedig â'u testun gosod dewisol yn ogystal ag amrywiaeth o gynyrchiadau theatraidd o arddulliau/genres cyferbyniol, cyfnodau/cyd-destunau cyferbyniol, gweithiau wedi'u creu yng Nghymru neu a ysbrydolwyd gan Gymru, a gweithiau a ysgrifennwyd gan amrywiaeth eang o awduron, gan gynnwys rhai o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Dylai dysgwyr gael cyfle i archwilio theatr fel actor, dylunydd a chyfarwyddwr, gan gasglu syniadau o amrywiaeth o ffynonellau i gyfoethogi eu dealltwriaeth o ddrama
- ymateb ac adfyfyrio – mae hyn yn cysylltu â pherfformiadau byw a/neu wedi'u recordio/eu ffrydio'n fyw fel dylanwadau theatraidd posibl ar gyfer y testunau gosod a'r gweithiau heb eu paratoi. Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd yn Uned 3, maent fwyfwy yn gwerthuso ac yn creu ymatebion mwy soffistigedig, yn annibynnol i theatr fyw a/neu wedi'i recordio ymlaen llaw. Mae eu gwerthusiad o waith eraill yn adlewyrchu dealltwriaeth gynyddol o'r profiad theatraidd ac yn eu galluogi i ffurfio beirniadaeth effeithiol.

Rhaid i'r testunau a ddewisir ar gyfer Unedau 2 a 3 fod yn wahanol.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Meysydd cynnwys**

<table>
<tr><th colspan="2">3.1 Dehongli Theatr</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o:<br>3.1.1 Sut mae drama a theatr yn cael eu dylunio, eu datblygu a'u perfformio<br>3.1.2 Sut mae'r actor, y dylunydd a'r cyfarwyddwr yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy astudio testun gosod<br>3.1.3 Sut i adfyfyrio ar, dadansoddi a gwerthuso gwaith eraill drwy astudio darnau heb eu paratoi.</td></tr>
<tr><td>Cynnwys</td><td>Gwybodaeth bellach</td></tr>
<tr><td>3.1.1<br>Sut mae drama a theatr yn cael eu dylunio, eu datblygu a'u perfformio</td><td>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• sut mae drama a theatr yn cael eu dylunio, eu datblygu a'u perfformio.<br><br>Bydd canolfannau yn dewis un o'r testunau gosod isod:<br><br>1. Breuddwyd Nos Ŵyl Ifan William Shakespeare<br>2. Pethe Brau Tennessee Williams<br>3. Bryniau'r Glas-Atgofion Dennis Potter<br>4. Wyneb: Y Ddrama Benjamin Zephaniah<br>5. Llewlanc Zizou Corder, addasiad Marcelo Dos Santos<br>6. Cysgu'n Brysur Bethan Marlow<br>7. Un Bore Mawrth Alison Carr.</td></tr>
<tr><td>3.1.2<br>Sut mae'r actor, y dylunydd a'r cyfarwyddwr yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy astudio testun gosod</td><td>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• adnabod a disgrifio gan ddefnyddio terminoleg drama sut mae'r actor, y dylunydd a'r cyfarwyddwr yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy astudio'r testun gosod a ddewiswyd ganddynt.<br><br>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• deall sut mae actor(ion) yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy:<br>  • ddehongli cymeriad (cymelliannau a chydberthnasoedd)<br>  • rhyngweithio rhwng cymeriadau<br>  • defnyddio sgiliau corfforol<br>  • defnyddio sgiliau lleisiol.<br><br>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• deall sut mae dylunydd yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy:<br>  • wisgoedd, gwallt a cholur<br>  • goleuo<br>  • sain<br>  • set a phropiau<br>  • defnydd o'r llwyfan gan gynnwys:<br>    • bwa proseniwm<br>    • theatr gylch<br>    • ymwthiol<br>    • traws.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• deall sut mae **cyfarwyddwr** yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy'r canlynol:<br>  • dehongli cymelliannau cymeriad a chydberthnasoedd<br>  • defnyddio technegau ymarfer<br>  • yr arddull perfformio a ddewiswyd<br>  • yr arddull dylunio a ddewiswyd<br>  • y dewis o lwyfan gan gynnwys:<br>    • bwa proseniwm<br>    • theatr gylch<br>    • ymwthiol<br>    • traws.<br><br>Dylai dysgwyr wybod y canlynol:<br>• cyd-destun cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol y perfformiad gwreiddiol o'r testun gosod. |
| 3.1.3<br>Sut i adfyfyrio ar waith eraill a'u dadansoddi a'u gwerthuso drwy astudio darnau heb eu paratoi | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• adnabod a disgrifio gwahanol arddulliau/genres perfformio, gan gynnwys:<br>  • naturoliaeth<br>  • theatr gerdd<br>  • theatr gorfforol<br>  • theatr mewn addysg.<br><br>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• dadansoddi a gwerthuso gan ddefnyddio terminoleg drama sut mae'r actor, y dylunydd a'r cyfarwyddwr yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy astudio darnau heb eu paratoi.<br><br>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• dadansoddi a gwerthuso sut mae **actor(ion)** yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy:<br>  • ddehongli cymeriad (cymelliannau a chydberthnasoedd)<br>  • rhyngweithio rhwng cymeriadau<br>  • defnyddio sgiliau corfforol<br>  • defnyddio sgiliau lleisiol.<br><br>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• dadansoddi a gwerthuso sut mae **dylunydd** yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy:<br>  • wisgoedd, gwallt a cholur<br>  • goleuo<br>  • sain<br>  • set a phropiau.<br><br>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• dadansoddi a gwerthuso sut mae **cyfarwyddwr** yn cyfleu ystyr i gynulleidfa drwy:<br>  • ddehongli cymelliannau cymeriad a chydberthynas<br>  • yr arddull perfformio a ddewiswyd. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu

Mae TGAU Drama yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu’r profiadau dysgu canlynol (ni chaiff y profiadau eu hasesu’n uniongyrchol):

- profi amrywiaeth o berfformiad(au) a/neu weithdai proffesiynol, naill ai'n bersonol neu ar-sgrin
- profi amrywiaeth o rolau – gan gynnwys fel perfformiwr, dylunydd, cyfarwyddwr, cynhyrchydd a rheolwr llwyfan
- datblygu hyder wrth roi a derbyn adborth, hyrwyddo meddwl annibynnol, gwreiddioldeb a gwytnwch creadigol
- cael cyfleoedd i fentro, creu'n fyrfyfyr a goresgyn heriau creadigol
- cymryd rhan mewn rhyw fath o berfformiad cydweithredol
- meithrin ymwybyddiaeth sylfaenol o ystyriaethau moesegol a chyfreithiol fel bo'n briodol.

Er bod yn rhaid i ddysgwyr weithio mewn pâr/grŵp yn ystod Uned 1 ac Uned 2, nid ydynt yn cael eu hasesu ar eu sgiliau cydweithredol.

Mae ymhelaethu pellach ar y cyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol i'w gweld yn Atodiad C. Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# 3 ASESU

Bydd y Pecyn Asesu yn cynnwys yr holl wybodaeth fanwl sy'n ymwneud ag asesu.

## 3.1 Amcanion Asesu a Phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u nodi isod. Rhaid i ddysgwyr:

**AA1**
Dangos a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae drama yn cael ei datblygu, ei dylunio a'i pherfformio

**AA2**
Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio a/neu ddylunio

**AA3**
Adfyfyrio ar, dadansoddi a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill.

**AA4**
Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr mewn dyluniadau theatraidd a/neu berfformiadau

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoli pob amcan asesu ar gyfer pob uned ac ar gyfer y cymhwyster cyfan.

| | **AA1** | **AA2** | **AA3** | **AA4** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| Uned 1 | - | 22.5% | 5% | 12.5% | 40% |
| Uned 2 | - | 22.5% | - | 7.5% | 30% |
| Uned 3 | 20% | - | 10% | - | 30% |
| Pwysoliad cyffredinol | **20%** | **45%** | **15%** | **20%** | **100%** |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## 3.2 Trosolwg o'r trefniadau ar gyfer asesiad di-arholiad

**Uned 1: Trosolwg**

Ar gyfer yr asesiad hwn, mae'n ofynnol i ddysgwyr:

- greu a datblygu darn o theatr mewn ymateb i ysgogiad a osodir gan CBAC, gan ddefnyddio technegau ymarferwr theatr dylanwadol, cwmni neu nodweddion arddull theatraidd neu genre ac arddangos a chymhwyso eu sgiliau perfformio **neu** ddylunio mewn perfformiad byw
- cynhyrchu Log Adfyfyriol.

Gall dysgwyr ddewis cael eu hasesu naill ai ar actio **neu** ddylunio.

Gall dysgwyr weithio mewn grwpiau sy'n cynnwys rhwng **dau** a **phump** o actorion. Gall pob grŵp gynnwys hyd at **bedwar** dylunydd, gyda phob un yn cynnig sgìl dylunio gwahanol.

Bydd hyd y darn theatr hwn yn dibynnu ar nifer yr actorion yn y grŵp a dylai fod fel a ganlyn:

- Grŵp o ddau actor: 5-10 munud
- Grŵp o dri actor: 7-12 munud
- Grŵp o bedwar actor: 9-14 munud
- Grŵp o bum actor: 11-16 munud.

Rhaid i bob actor ryngweithio ag actorion eraill a/neu'r gynulleidfa **am o leiaf pum munud**. Nid yw nifer y dylunwyr mewn grŵp yn effeithio ar hyd y darn.

Gall dysgwyr gwblhau'r asesiad unrhyw bryd yn ystod y cwrs. Fodd bynnag, dylai canolfannau sicrhau bod asesiad yn cael ei gwblhau dim ond pan fydd dysgwyr wedi ymgymryd â'r addysgu a'r dysgu angenrheidiol ac wedi datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth ofynnol.

Mae'r asesiad yn cyfrannu 40% at radd gyffredinol y cymhwyster. Caiff yr uned ei marcio allan o 96 o farciau.

Bydd yr ysgogiadau'n cael eu rhyddhau ar safle Porth CBAC ym mis Medi y flwyddyn astudio gyntaf.

Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i chymedroli'n allanol gan CBAC.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Uned 2: Trosolwg**

Ar gyfer yr asesiad hwn, mae'n ofynnol i ddysgwyr:
- greu a datblygu darn(au) o destun perfformiad cyhoeddedig i'w berfformio
- dangos a chymhwyso sgiliau perfformio **neu** ddylunio a fydd yn cael eu gwireddu yn y perfformiad terfynol.

Bydd gan ddysgwyr ryddid wrth ddewis testun ar gyfer Uned 2. Fodd bynnag, mae'n **rhaid** i'w dewis o destun fod yn wahanol i'r testun gosod a ddewiswyd yn Uned 3.

Gall dysgwyr ddewis cael eu hasesu naill ai ar actio **neu** ddylunio.
Bydd dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau a fydd yn cynnwys rhwng dau a phedwar actor. Gall pob grŵp gael hyd at ddau ddylunydd, gyda phob un yn cynnig sgìl dylunio gwahanol.

Bydd hyd y darn theatr hwn yn dibynnu ar nifer yr actorion yn y grŵp a dylai fod fel a ganlyn:
- Grŵp o ddau actor: 5-10 munud
- Grŵp o dri actor: 7-12 munud
- Grŵp o bedwar actor: 9-14 munud

Rhaid i bob actor ryngweithio ag actorion eraill a/neu'r gynulleidfa **am o leiaf pum munud**. Nid yw nifer y dylunwyr mewn grŵp yn effeithio ar hyd y darn.

**Viva**

Rhaid i bob dysgwr sy'n dewis dylunio roi cyflwyniad 3-5 munud o hyd yn sôn wrth yr arholwr am eu dyluniad. Nid yw'r viva yn cael ei asesu a bydd yn digwydd ar ôl y perfformiad. Mae'n gyfle i ddysgwyr esbonio a chyflwyno eu dyluniad i'r arholwr.

Bydd yr uned hon yn cael ei chwblhau yn y flwyddyn astudio olaf.

Mae'r asesiad yn cyfrannu 30% at radd gyffredinol y cymhwyster. Caiff yr uned ei marcio allan o 72 o farciau.

Asesir yr uned hon gan arholwr ymweld.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# 4 CAMYMDDWYN

Cyn dechrau'r cwrs, bydd yr athro'n gyfrifol am roi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau CBAC ynglŷn â chamymddwyn. Ni ddylai ymgeiswyr wneud unrhyw beth annheg o gwbl wrth baratoi gwaith ar gyfer TGAU Drama.

Ceir gwybodaeth am gamymddwyn yn ein Canllaw i atal, adrodd am ac ymchwilio i gamymddwyn.

Rhaid rhoi gwybod i CBAC ar unwaith am bob achos o gamymddwyn posibl neu gamymddwyn gwirioneddol (camymddwyn@cbac.co.uk). Os bydd ymgeiswyr yn camymddwyn, mae'n bosibl y byddant yn cael eu cosbi neu eu diarddel o'r arholiadau.

Ym mhob achos o gamymddwyn, cynghorir canolfannau i ddilyn cyngor llyfryn y CGC Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# 5 GWYBODAETH DECHNEGOL

## 5.1 Cofrestru

Cymhwyster llinol yw hwn y mae'n rhaid sefyll yr holl asesiadau ar ei gyfer ar ddiwedd y cwrs. Gellir cwblhau asesiad di-arholiad Uned 1 yn gynharach yn y cwrs ond rhaid ei gyflwyno ar ddiwedd y cwrs.  Rhaid cwblhau asesiad di-arholiad Uned 2 yn ystod y cyfnod asesu a fydd yn cael ei bennu gan CBAC yn y flwyddyn astudio olaf.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfres yr haf tan ddiwedd oes y fanyleb hon. Bydd y cyfle asesu cyntaf yn haf 2027.

Gellir sefyll cymhwyster fwy nag unwaith.

Gellir trosglwyddo marciau asesiadau di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb. Os bydd ymgeisydd yn ailsefyll uned asesiad di-arholiad (yn hytrach na throsglwyddo'r marc asesiad di-arholiad blaenorol), y marc newydd fydd yn cyfrif tuag at y radd gyffredinol, hyd yn oed os yw'r marc hwnnw'n is na'r cynnig blaenorol (oni bai bod y marc yn absennol).

Nodir y cod cofrestru isod:

| | **Cod cofrestru** | |
|---|---|---|
| | **Cyfrwng Saesneg** | **Cynfrwng Cymraeg** |
| **CBAC TGAU Drama** | 3620QS | 3620CS |

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau yn nodi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

## 5.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Mae cymwysterau TGAU yn cael eu hadrodd ar raddfa wyth pwynt o A*–G, ac A* yw'r radd uchaf. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 |
|---|---|---|---|
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | ✓ | ✓ | |
| Agwedd cynaliadwyedd Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | ✓ | ✓ | |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | ✓ | ✓ | ✓ |
| Hawliau Dynol | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith | ✓ | ✓ | ✓ |
| Amrywiaeth | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gwrando | ✓ | ✓ | ✓ |
| Darllen | ✓ | ✓ | ✓ |
| Siarad | ✓ | ✓ | ✓ |
| Ysgrifennu | ✓ | ✓ | ✓ |
| Datblygu Hyfedredd Mathemategol | ✓ | ✓ | |
| Mae deall y system rif yn ein helpu ni i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | ✓ | ✓ | |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli ffenomena yn y byd go iawn | ✓ | ✓ | |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein | ✓ | ✓ | ✓ |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| **Llinynnau Cwricwlwm i Gymru** | **Uned 1** | **Uned 2** | **Uned 3** |
|---|---|---|---|
| helpu ni i wneud casgliadau a phenderfyniadau gwybodus | | | |
| Dinasyddiaeth | ✓ | ✓ | ✓ |
| Rhyngweithio a Chydweithio | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynhyrchu | ✓ | ✓ | ✓ |
| Data a Meddwl Cyfrifiannol | ✓ | ✓ | |
| Creadigrwydd ac Arloesi | ✓ | ✓ | ✓ |
| Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynllunio a Threfnu | ✓ | ✓ | ✓ |
| Effeithiolrwydd Personol | ✓ | ✓ | ✓ |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# Atodiad B: Rhestr Terminoleg

Isod mae rhestr terminoleg sydd wedi'i chynllunio i gynorthwyo canolfannau i baratoi dysgwyr ar gyfer yr asesiad di-arholiad yn Unedau 1 a 2, a'r asesiad a arholir yn Uned 3.

Nid yw'n cyd-fynd â meini prawf asesu penodol o fewn unedau unigol, ac mae wedi'i chynllunio i gynorthwyo dysgwyr i fynegi eu syniadau gan ddefnyddio terminoleg pwnc benodol yn ogystal â chynnig amrywiaeth o gysyniadau, termau a syniadau ar gyfer cynnwys y efallai byddai dysgwyr yn dymuno eu hystyried a/neu eu cynnwys wrth archwilio a pharatoi eu gwaith ymarferol a damcaniaethol. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a gall canolfannau/dysgwyr archwilio technegau perfformio/dylunio a/neu gonfensiynau priodol eraill.

**Sgiliau lleisiol**
Traw
Cyflymder/tempo
Tôn
Saib
Acen
Lefel y sain
Eglurder
Cerddoroldeb
Goslef
Rhythm

**Sgiliau corfforol**
Ystum
Llonyddwch
Rhuglder
Mynegiant
Osgo
Mynegiant wyneb
Symud
Pellter rhwng actorion (cynefineg)

**Rhyngweithio**
Cyswllt llygad
Gwrando ac ymateb
Cyflymder *(pace)*
Rhuglder
Cymhelliant
Safle
Statws

**Datblygiad/Ymarfer**
Coridor cydwybod (sydd hefyd yn cael ei alw'n 'lôn gydwybod' neu 'dwnnel meddyliau')
Cof emosiynol
Llun llonydd / tableaux
Cadair goch
Chwarae’n fyrfyfyr
Cyfnewid rolau
Trosglwyddo rolau
Rôl ar y wal
Cerfio

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Creu is-destun yn fyrfyfyr
Meddyliau yn y pen neu olrhain meddyliau

**Dylunio goleuo**
Tanbeidrwydd
Blacowt
Snap
Codi golau o ddim / pylu golau i ddim
Codi / pylu golau
Croesbylu
Golau cylch
Llifolau
Golau sbot dilyn
Golau i fyny
Golau i lawr
Rhagosodiad
Goleuadau tŷ
Ciw goleuo
Tafluniadau
Llusernau
Golch o olau oer
Golch o olau cynnes
Gobos
Offer goleuo arbennig
Strôb
Taflenni ciwiau
Peiriant mwg
Rhwyllen (sgrim)

**Dylunio sain**
Cerddoriaeth
Effeithiau sain
Ciw sain
Seiniau byw
Seiniau wedi'u recordio
Lefel sain
Datsain/atsain
Ffynonellau sain
Sain amgylchynol
Mwyhad
Microffonau
Awyrgylch
Hidlydd
Sampl
Graddol gryfhau o ddim / Graddol bylu i ddim
Seinlun
Sain gynefin / anghynefin
Ystumiant
Adborth
Taflenni ciwiau
Sŵn gwyn
Tansgor
Leitmotiv

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Dylunio set/llwyfannu**
Mynd ar/oddi ar y llwyfan
Bwa Proseniwm
Ffedog
Theatr gylch
Llwyfan ymwthiol
Llwyfan traws
Llwyfan pen-atoch
Promenâd
Safle-benodol
Hedfan i mewn/allan
Tro
Llwyfan ar ogwydd
Trapddor
Rhwyllen
Cynllun llawr
Llinellau gweld
Canol chwith
Canol dde
Fyny canol llwyfan
Lawr canol llwyfan
Canol llwyfan
Cefnlen/seiclorama
Safle-benodol
Esgyll/fflatiau
Gwisgo set
Propiau
Dodrefn
Tafluniad
Gweadedd/ffabrigau
Model o set
Lefelau
Dodrefn

**Dylunio gwisgoedd (gan gynnwys gwallt a cholur)**
Cyfwisgoedd
Defnyddiau/ffabrigau
Dillad
Steiliau gwallt
Wigiau
Hylinio (*contouring*)
Patrwm
Cyfnod
Steil

**Arddulliau Perfformio**
Naturiolaidd
Theatr Epig / Arddull Brecht
Annaturiolaidd
Theatr Gorfforol
Arddull Artaud / Theatr Creulondeb
Arddull Berkoff
Theatr Mewn Addysg
Theatr y Gorthrymedig/Boal / Theatr Gyflawn
Theatr Gerdd

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Arddulliau dylunio**
Naturiolaidd
Theatr Epig / Arddull Brecht
Annaturiolaidd
Mynegiadol
Minimalaidd
Realaeth

© WJEC CBAC Ltd. 2024